

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn dwyn y teitl 'Ar y trywydd iawn?' Masnachfaint y Rheilffyrdd a Metro De Cymru

Mae ein gwasanaethau rheilffyrdd yn darparu cysylltiadau hanfodol i gymunedau yng Nghymru, gan gysylltu pobl â swyddi a chyfleoedd hamdden a chefnogi ein heconomi amrywiol.

Ein huchelgais ar gyfer y fasnachfaint rheilffyrdd nesaf yw gosod y sylfaen ar gyfer rhwydwaith trafndiaeth wedi'i drawsnewid ar draws Cymru ac mae gan Fetro De Cymru y potensial i gyflawni llawer mwy na rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus gwell ar gyfer y rhanbarth. Bydd yn dylanwadu ar isadeiledd economaidd a chymdeithasol y rhanbarth, symudedd cymdeithasol a chyfle cyfartal ac yn gweithredu fel glasbrint ar gyfer y ffordd yr ydym yn ymdrin â thrafnidiaeth integredig ar draws Cymru.

Mae teithwyr yn disgwyl gwasanaeth effeithlon o ansawdd uchel sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb. Gwyddom hyn o waith ymgysylltu eang rydym wedi'i wneud i gasglu barn y cyhoedd ar y blaenoriaethau polisi ar gyfer y fasnachfaint nesaf, yn cynnwys dau ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd wedi bod yn rhan sylfaenol o'n ffordd o feddwl drwy gydol y broses gaffael, ac rydym yn ceisio cyflawni yn y meysydd blaenoriaeth hyn.

Erbyn hyn, mae Trafnidiaeth Cymru yn cynnal deialog gystadleuol gyda chynigwyr a fydd yn helpu i sicrhau bod y fasnachfaint nesaf yn darparu'r atebion gorau posibl i deithwyr.

Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn, ac mae llawer o'r blaenoriaethau a amlinellwyd gan y pwyllgor yn cyd-fynd â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer y gwasanaeth rheilffyrdd newydd. Ein gweledigaeth yw gwell rhwydwaith trafndiaeth integredig o ansawdd uchel i Gymru.

Rydym wedi ystyried yr adroddiad a'i ganfyddiadau a byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'w argymhellion ochr yn ochr â chanfyddiadau ein hymgyngoriad diweddar ein hunain oedd â'r nod o alluogi ymatebwyr i flaenoriaethu pa agweddau ar wasanaeth rheilffyrdd newydd posibl sy'n bwysig iddynt wrth inni ddatblygu'r rhaglen.

Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad i'w gweld isod:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddatrys unrhyw gyfyngau ar fyrder o ran datganoli'r pŵer i gaffael y fasnachfaint gan alluogi Llywodraeth Cymru i fwrw ati, a hynny o fewn amserlen dynn.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth y DU i drosglwyddo swyddogaethau masnachfreinio rheilffyrdd ar gyfer masnachfaint Cymru a'r Gororau. Rydym yn croesawu'r diweddariad ar wefan yr Adran Drafnidiaeth (<https://www.gov.uk/government/publications/rail-franchises-summary/rail-franchises-summary>) dyddiedig 20 Gorffennaf 2017, sy'n datgan yn amodol ar gytundeb terfynol a chymeradwyaeth gan Senedd San Steffan, bwriedir i'r swyddogaethau hyn gael eu trosglwyddo yn ystod 2017 ond gallai swyddogion yr Adran Drafnidiaeth fod yn gweithio yn unol ag amserlen hwyr.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â negodi gan swyddogion yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru egluro – er budd teithwyr a darpar weithredwyr – pa gamau y byddai'n eu cymryd petai'n llwyddo i gael adran 25 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 wedi'i dirymu, yn enwedig yn ystod y fasnachfaint newydd.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Pe byddem yn llwyddo i ddiddymu adran 25 o'r Ddeddf Rheilffyrdd, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban, byddem yn cymryd camau i sicrhau bod masnachfreintiau'r dyfodol yn cael eu datblygu ar fodel dielw. Hyd nes y bydd amgylchiadau, cyd-destun ac amseriad unrhyw ddiddymiad yn y dyfodol yn hysbys, nid yw'n bosibl rhag-weld yr hyn y gallai Gweinidogion Cymru ddewis ei wneud.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi crynodeb hawdd ei ddefnyddio gan deithwyr o brif elfennau'r fanyleb ddrafft – yn enwedig lle maent yn gyfystyr â newid blaenoriaethau gwreiddiol Llywodraeth Cymru – a hefyd sicrhau bod crynodeb o'r fanyleb derfynol yn cael ei gyhoeddi sy'n ddigon manwl i ddeall y cynlluniau.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r gofynion allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl ar gyfer gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn y dyfodol gyda digon o fanylion i ganiatáu i'r cynlluniau gael eu deall. Mae lefel y manylder y gallwn ei chyhoeddi yn ystyried y broses ddeialog gystadleuol a gynhelir gan Trafnidiaeth Cymru, lle mae gennym ddyletswydd i drin cynigwyr yn deg ac yn gyfartal, i gydymffurfio â deddfwriaeth caffael, ac i sicrhau gwerth am arian ar gyfer gwariant cyhoeddus yn sgil y caffael.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi fersiwn o'r contract cyfan ar ôl ei ddyfarnu, ynghyd â manyleb tendr.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Pan fydd costau ychwanegol yn dod i'r amlwg yna bydd ffynonellau cyllid priodol yn cael eu nodi hefyd. Pan fydd angen, bydd costau ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn ffurfio rhan o'n cais am gyllid mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod digon o adnoddau a sgiliau priodol ar gael i asesu cynigion a rheoli'r fasnachfaint. I'r perwyl hwn, dylai TC gyhoeddi cynllun adnoddau dynol sy'n amlinellu'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen a sut y cânt eu sicrhau. Yn ogystal â bod yn ddogfen weithredol, bydd yn rhoi sicrwydd bod cynlluniau effeithiol ar waith ac y gellir craffu arnynt.

Ymateb - Derbyn mewn Egwyddor

Rydym wedi sefydlu Trafnidiaeth Cymru (TC) i ddarparu cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phrosiectau trafniadaeth yng Nghymru. Mae strwythur TC wedi'i drefnu i fod yn ystwyth a hyblyg gyda'r gallu i gynyddu neu leihau adnoddau i ddiwallu anghenion y prosiect a gofynion amrywiol.

Mae'n rhaid i TC roi sicrwydd i Lywodraeth Cymru drwy eu Cynllun Busnes blynyddol bod ganddynt yr adnoddau i gyflawni gweithgareddau ei gylch gwaith, ac mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â threfniadau monitro Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Rhoddir cyfrif am gost yr adnoddau priodol yng nghost rhedeg TC sydd wedi'i chynnwys fel rhan o'u cynllun busnes.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth fynd ati ar fyrder i lunio pecyn cyllido terfynol ar gyfer Cledrau Craidd y Cymoedd. Heb fwy o sicrwydd, mae'r Pwyllgor yn ei chael hi'n anodd gweld sut y caiff gwerth am arian ei gyflawni a'i ddangos.

Ymateb: Derbyn

Mae'r cytundeb cyllid cyfalaf wedi cael ei drafod rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, a gytunodd y gallai Llywodraeth Cymru benderfynu sut y byddai'r cyllid y cytunwyd arno yn cael ei wario ar foderneiddio Cledrau'r Cymoedd. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol nad oedd unrhyw sail iddo ailystyried cymhwysedd yr ymrwymiad.

Nod ein trefniadau caffael gyda'n Partner Gweithredu a Datblygu a'n Partner Cyflenwi Seilwaith yw sicrhau gwerth am arian o ran yr atebion yr ydym yn eu creu.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd cyllid ar gael gan yr Adran Drafnidiaeth i gyfrannu at y gwaith o foderneiddio Cledrau'r Cymoedd. Bydd y cyllid sy'n weddill yn cael ei ariannu'n rhannol gan tua £125 miliwn o arian ERDF, gyda'r elfen sy'n weddill, sef tua £500 miliwn yn cael ei thalu gan Lywodraeth Cymru. Mae costau cyfalaf y gwelliannau'n ymwneud â'r Metro y disgwylir i Lywodraeth Cymru eu hysgwyddo yn y cyfnod o 2018-19 i 2020-21 wedi'u cynnwys mewn cyllidebau drafft. Bydd angen ystyried cyllid y tu hwnt i 2021 fel rhan o ystyriaethau'r gyllideb yn y dyfodol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

O ystyried gwendidau'r fasnachfrait bresennol, dylai'r broses o drosglwyddo pwerau masnachfreinio gyd-fynd â digon o gyllid referniw i gyflawni masnachfrait effeithiol. Mae'r Pwyllgor yn poeni, os na fydd y grant bloc yn cynyddu, na fydd hyn yn digwydd. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd bod y setliad ariannol y cytunir arno â'r Adran Drafnidiaeth yn ddigonol drwy amlinellu sail y casgliad hwn. Os na all wneud hyn am fod trafodaethau yn mynd rhagddynt rhaid iddi roi'r fath sicrwydd erbyn y dyddiad y cyhoeddir y fanyleb derfynol. Bydd hyn yn sail i graffu ar Lywodraeth Cymru yn ariannol yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Cafodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth i drafod y cyd-destun ariannol sy'n sail i ddatganioli'r swyddogaethau masnachfreinio. Cafodd y materion sylfaenol eu nodi a bydd trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cymru a Thrysorlys EM i sicrhau ateb i'r goblygiadau ariannol. Bydd parhau â'r trafodaethau hyn wrth inni gaffael gwasanaethau rheilffyrdd ar gyfer y dyfodol yn sicrhau'r canlyniad gorau i deithwyr, am na fyddant yn wynebu'r ansicrwydd ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn trawsnewid y gwasanaethau rheilffyrdd ar ddiwedd tymor y fasnachfaint bresennol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu model sy'n dangos y gall gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a gweithredu'r Metro gael eu darparu o fewn amlen cyllid refeniw o £155 miliwn y flwyddyn (prisiau 2016/17) pan fydd y gwasanaethau newydd yn weithredol, a byddant yn aros ar y lefel hon (wedi'i haddasu ar gyfer chwyddiant).

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mae trafodaethau'n parhau gyda Swyddfa Cymru a Thrysorlys EM i ddatrys y goblygiadau ariannol.

Argymhellid 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Cred y Pwyllgor fod risg sylweddol yn gysylltiedig â throsglwyddo perchenogaeth Cledrau'r Cymoedd i Lywodraeth Cymru ac na fydd modd deall y risg hon yn llawn yn yr amser sydd ar gael. Yn arbennig, bydd yn amhosibl asesu'n gywir gyflwr rhwydwaith y Cymoedd, gan olygu y gallai Llywodraeth Cymru wynebu costau sylweddol yn y dyfodol. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddod i gytundeb cadarn â Network Rail a Llywodraeth y DU sy'n lliniaru'r risg hon. Dylai hyn gynnwys atebolrwydd parhaus rhwng Llywodraeth y DU a Network Rail am ddiffygion cudd yn Rhwydwaith y Cymoedd. Dylai'r setliad ariannol â'r Adran Drafnidiaeth hefyd adlewyrchu'r ffaith y bydd Llywodraeth y DU a Network Rail yn mynd i lai o gostau yn sgil throsglwyddo perchenogaeth Cledrau'r Cymoedd.

Ymateb: Derbyn

Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru (gyda chefnogaeth Trafnidiaeth Cymru) a Network Rail ynghylch throsglwyddo Cledrau Craidd y Cymoedd. Mae'r prif delerau cychwynnol wedi'u datblygu a'u cymeradwyo sy'n galluogi i waith datblygu pellach mwy manwl gael ei wneud ochr yn ochr â'r broses gaffael.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Adran Drafnidiaeth i ddatblygu egwyddorion y throsglwyddo asedau. Disgwylir y bydd y throsglwyddiad yn denu setliad ariannol yn y dyfodol sy'n cyd-fynd yn fras â'r lefelau presennol o fuddsoddiad.

Mae trosglwyddo perchnogaeth i Lywodraeth Cymru yn golygu y gallwn greu dull o liniaru'r risg sylweddol sy'n gysylltiedig ag ymrwymo i gontract costau sy'n dod i'r amlwg gyda Network Rail – sef yr unig fath o gontract y mae Network Rail yn barod i ymrwymo iddo ar hyn o bryd. Nid yw'r contractau hyn yn darparu unrhyw sicrwydd o ran costau i Lywodraeth Cymru, ac mae'n trosglwyddo'r holl risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r prosiect i ni. Mae hyn yn cyfaddawdu gallu Llywodraeth Cymru i reoli risgiau a chostau'r prosiect yn rhagweithiol.

Mae lluo o enghreifftiau wedi'u cofnodi yng Nghymru ac ar draws y DU o anhawster Network Rail i gyflawni rhaglenni integredig, yn unol â'r gyllideb a'r amserlen wreiddiol. Cynyddodd costau cynllun trydaneiddio Prif Linell Reilffordd Great Western o £2.6 biliwn i £5.7 biliwn, a byddai cynnydd canrannol tebyg yn cynyddu cost Metro De Cymru i £1.6bn ac yn creu oedi posibl am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae'r cleient yn parhau i dalu er gwaethaf hyd unrhyw oedi neu'r cyfaddawdu ar ganlyniadau. Drwy gymryd rheolaeth dros y prosiect gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno mesurau i liniaru unrhyw risgiau o'r fath a gwneud penderfyniad ar fwrw ymlaen, sydd i'r gwrthwyneb i benderfyniad diweddar Llywodraeth y DU i ganslo'r ymrwymiad i drydaneiddio i Abertawe.

Goblygiadau Ariannol – Dim – y rhagdybiaeth yw y bydd unrhyw dâl sy'n gysylltiedig â gweithredu cledrau craidd y cymoedd yn cael eu talu drwy drosglwyddiad ariannol tebyg gan yr Adran Drafnidiaeth. Maent yn talu'r gost hon yn awr, drwy Network Rail, i weithredu gwasanaethau rheilffyrdd yn yr ardal hon.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn dangos sut mae elfen masnachfrait rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau yn cynnig gwell gwerth am arian na'r fasnachfrait bresennol.

Ymateb: Derbynn

Rydym yn defnyddio proses gaffael gystadleuol o dan Reoliadau Cyfleustodau 2016. Nod deialog gystadleuol yw datblygu un neu fwy o atebion amgen addas a fyddai'n gallu cyflawni ein gofynion, sy'n angenrheidiol yn ein barn ni am ein bod yn chwilio am atebion arloesol i ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd.

Mae'r broses gystadleuol yn seiliedig ar sicrhau gwerth am arian mewn prosiectau caffael seilwaith cymhleth ag iddynt werth uchel. Mae'r broses yn cynnal cystadleuaeth, yn darparu atebion gwell a bargaen well i'r sector cyhoeddus, ac mae'n darparu mwy o reolaeth dros newidiadau o ran cwmpas a chynnydd mewn costau a brofir yn aml wrth gyflawni prosiectau cymhleth.

Rydym wedi datblygu meini prawf gwerthuso a methodoleg sgorio sydd wedi'u teilwra i'r broses gaffael gymhleth sy'n ymateb i'n blaenoriaethau.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi fersiwn o'r contract cyfan ar ôl ei ddyfarnu, fel rhan o'i phroses o ddangos sut rydym wedi cyflawni gwell gwerth am arian.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Modelwyd y fasnachfaint i ddarparu lefel well o wasanaeth am gost refeniw benodol o £155 miliwn y flwyddyn (prisiau 2016/17). Fel rhan o broses gystadleuol disgwyliwn i ddulliau arloesol gael eu defnyddio yn yr amlen gyllido hon i gynnig gwasanaethau gwell i deithwyr.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y fanyleb dendr yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen i wneud yn siŵr bod yr ymarfer caffael yn darparu gwerth am arian. Gyda'r fanyleb derfynol i'w chyhoeddi ym mis Gorffennaf, rhaid dileu unrhyw ansicrwydd ar unwaith.

Ymateb: Derbyn

Bydd y ddeialog gystadleuol yn arwain at greu manyleb tendr y gallwn fod yn sicr y bydd pob cynigiwr yn gallu cyflwyno cynnig ar ei chyfer o fewn y cyllidebau a nodwyd gennym. Mae hyn yn golygu y bydd yr ymdrech i sicrhau gwerth am arian yn ystod y ddeialog gystadleuol yn cael ei hymgorffori yn y fanyleb.

Er mwyn sicrhau proses gadarn a gwerth am arian ar gyfer arian cyhoeddus, bydd dogfennau'r fanyleb tendr yn destun adolygiad a phrosesau llywodraethu, gan gynnwys Adolygiad Gateway, cyn cael eu dosbarthu i gynigwyr.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mae dogfennaeth y tendr yn nodi'n glir yr amlen gyllido sefydlog sydd ar gael ar gyfer gweithredu'r fasnachfaint ynghyd â manylion y gwasanaethau angenrheidiol.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru/TC sicrhau bod digon o gymhelliant yn y contract terfynol i'r gweithredwr arloesi, buddsoddi a gweithio'n galed i gynyddu niferoedd y teithwyr er mwyn bodloni'r twf disgwyliedig yn y galw yn ystod y fasnachfaint. Dylai'r gyfundrefn cymell a chosbi hefyd fod yn gysylltiedig â boddhad teithwyr fel y'i mesurir drwy Arolwg Cenedlaethol o Deithwyr Trenau, yn ogystal â materion ehangach fel prydlondeb, dibynadwyedd a chyflwr a gwaith cynnal a chadw cerbydau.

Ymateb: Derbyn

Mae cynigwyr yn cael eu cymell i gynnig gwasanaethau gwell ac mae'n ofynnol dangos hefyd sut y byddant yn sicrhau bod digon o gapasiti yn cael ei ddarparu i ymateb i dwf yn y dyfodol.

Bydd y drefn cymhelliant a chosb yn defnyddio mesurau sy'n cynnwys prydlondeb a dibynadwyedd gwasanaethau trên, y capasiti a ddarperir o'i gymharu â'r capasiti a gynlluniwyd, a meincnodau ar gyfer sgoriau Arolygon Cenedlaethol o Deithwyr Rheilffyrdd, Arolygon Boddhad Cwsmeriaid ac Arolygon Siopwr Cudd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd cymhellion yn cael eu nodi fel rhan o'r contract, ac mae'r dulliau o fonitro'r gweithgareddau hyn wedi'u cynnwys fel rhan o gynllun busnes TC.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi gynllun wrth gefn addas ar waith os bydd yn amhosibl i'r cynigydd gydymffurfio. Dylai roi sicrwydd i'r Pwyllgor bod y cynllun wrth gefn hwn ar waith cyn dyfarnu'r contract.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cwblhau trefniadau i ymdrin â'r sefyllfa pe na bai cais addas ar gyfer y contract nesaf, neu os nad yw'r gweithredwr nesaf yn gallu cydymffurfio â'r contract i ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd. Bydd cynlluniau wrth gefn priodol ar waith cyn dyfarnu'r contract.

Goblygiadau Ariannol – Dim – disgwylir i unrhyw gostau gael eu talu o gyllidebau rhaglenni cymeradwy.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai cerbydau newydd fod yn gydnaws â cherbydau gweddill y rhwydwaith, er mwyn sicrhau cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r gweithredwyr er mwyn diwallu anghenion anarferol neu ychwanegol teithwyr.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Ar ddechrau'r broses gaffael, hysbyswyd y cynigwyr ynghylch blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cerbydau o ansawdd uchel.

Mae gofyn i gynigwyr ddangos sut byddant yn sicrhau y bydd trenau digonol ar gael i ddarparu eu cynigion gwasanaeth trên, yn ogystal â'r hyblygrwydd i fodloni gofynion amgylchedd dynamig sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gan gynnwys parhad yn nhwff nifer y teithwyr a rheoli digwyddiadau mawr ar hyd a lled Cymru. Bydd hyn yn rhoi ystyriaeth i'r gofynion o ran cerbydau ar gyfer Cledrau Craidd y Cymoedd, a fydd yn cael ei benderfynu gan yr ateb seilwaith a gynigir.

Goblygiadau Ariannol – Dim – Mae'r cynlluniau ar gyfer cerbydau wedi'u cynnwys yn y gost o ddarparu'r gwasanaethau rheilffyrdd.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru/TC lunio strategaeth cerbydau mewn partneriaeth â'r gweithredwr llwyddiannus sy'n cynnwys y fasnachfaint bresennol, ac yn edrych y tu hwnt iddi, er mwyn monitro a rhagweld anghenion teithwyr ledled ardal y fasnachfaint dros yr 20-25 mlynedd nesaf. Yn unol ag ymrwymadau Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio'r economi, dylai'r strategaeth ystyried hydrogen a ffynonellau tanwydd amgen llygredd isel eraill fel dewis amgen hirdymor i ddiesel ar rannau o'r rhwydwaith sydd heb eu trydaneiddio.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Fel rhan o'r broses gaffael ar gyfer contract gwasanaethau rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau, rydym wedi'i gwneud yn glir ein bod yn disgwyl gweld cyflwyno cerbydau o ansawdd uwch fel rhan o'r broses hon. Mae hyn yn cynnwys cael digon o gapasiti hefyd i fodloni galw teithwyr, y rhagwelir y bydd yn tyfu 74 y cant arall erbyn 2030. Disgwylwn i gynigwyr gyflwyno eu cynlluniau ar gyfer cerbydau yn unol â'n gofynion.

Rydym wedi cynnwys targedau lleihau carbon gyda chymhellion i wella dros oes y contract. Bydd trenau gwell ar draws y gwasanaeth rheilffyrdd yn helpu i leihau effaith gwasanaethau rheilffyrdd ar yr amgylchedd, a gosodir targedau heriol ar gyfer y gweithredwr i leihau allyriadau, a byddant yn cael eu hadolygu bob pum mlynedd.

Goblygiadau Ariannol – Dim - Mae'r cynlluniau ar gyfer cerbydau wedi'u cynnwys yn y gost o ddarparu'r gwasanaethau rheilffyrdd.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn glir yn ei manyleb derfynol a'i dogfen gryno sut y cynhelir darpariaeth cludo nwyddau ar Gledrau Craidd y Cymoedd.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Ers i'r broses ddechrau, cafwyd newid yn y galw am wasanaethau cludo nwyddau ar Gledrau Craidd y Cymoedd gyda cau cloddio castiau agored mewn rhai ardaloedd. Felly, rydym wrthi'n adolygu ein polisi cludo nwyddau ar Gledrau Craidd y Cymoedd.

Byddwn yn diweddarau'r pwyllgor unwaith y bydd y sefyllfa bolisi wedi'i gadarnhau.

Goblygiadau Ariannol – Ni ragwelir dim.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu strwythurau cadarn i ymgysylltu â theithwyr a rhanddeiliaid gan gynnwys cynrychiolaeth gref o ranbarthau Lloegr. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth nodi'n glir sut y bydd y rhain yn dylanwadu arnynt wrth reoli'r fasnachfaint. Hefyd, rhaid i'r contract ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr ymgysylltu â'r strwythurau hyn, a dylai hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun ein hargymhelliad y dylai lefelau boddhad teithwyr fod wrth wraidd y gyfundrefn cymell a chosbi.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu strwythurau ymgysylltu cadarn ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd yn y dyfodol. Mae gennym eisoes Banel Cyngori Defnyddwyr Trafnidiaeth ar gyfer Teithwyr a Grŵp Trafnidiaeth Hygyrch. Bydd Siarter Teithwyr yn chwarae rhan bwysig yn y broses o geisio sefydlu contract rhwng teithwyr a'r darparwr gwasanaethau rheilffyrdd, a bydd hefyd yn darparu manylion ar nifer o faterion pwysig eraill gan gynnwys diogelwch, diogelu a gwybodaeth i deithwyr anabl.

Mae grwpiau cymunedol wedi gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu a chynnal gorsafoedd rheilffyrdd a bydd mentrau i ymestyn a gwella cynlluniau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith.

Rydym yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth i sicrhau bod y trefniadau yn y dyfodol yn mynd i'r afael â chynrychioli barn teithwyr a rhanddeiliaid yn rhanbarthau Lloegr. Bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i TC a'r gweithredwr egluro sut y byddant yn gweithio o fewn y trefniadau hyn fel rhan o'r cais.

Rydym yn cytuno ei bod yn hanfodol i bob sefydliad sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth os ydym i gyflawni'r uchelgeisiau hynny.

Goblygiadau Ariannol – Dim – mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn y gost o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Er bod TC yn sefydliad newydd sy'n datblygu, mae gwendidau clir yn ei drefniadau llywodraethu – yn arbennig atebolrwydd ei gadeirydd. Ni ddylai dirprwy TC fod yn rheolwr llinell ar ei gadeirydd. Dylai trefniadau llywodraethu gael eu hadolygu a'u hatgyfnerthu wrth i TC ddatblygu.

Ymateb: Derbynn mewn Egwyddor

Mae Cytundeb Rheoli rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn dirprwyo gweithrediadau'r Cwmni o ddydd i ddydd a rheoleidd-dra a phriodoldeb ei wariant (gan gynnwys gofynion o dan Ddeddf Cwmnïau 2006). Yn unol â'r Cytundeb Rheoli caiff y dirprwyo hwn ei gyflawni drwy'r Rheolwr Gyfarwyddwr fel y Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn atebol i Fwrdd y Cwmni. Y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol (DPS) ar gyfer yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (ESNR) yw Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol (AAO) dynodedig Llywodraeth Cymru ar gyfer yr arian a roddir i Trafnidiaeth Cymru, ac felly mae'n gyfrifol ac atebol yn y pen draw am yr holl faterion hyn. Mae'r DPS yn cyflawni'i gyfrifoldebau drwy ei benodiad fel Cadeirydd y Cwmni. Bydd unrhyw wrthdaro posibl rhwng rôl y DPS fel AAO a'i benodiad fel Cadeirydd y Cwmni yn cael ei gyfeirio iat Gyfarwyddwr Llywodraethu Llywodraeth Cymru.

Datblygwyd y trefniadau hyn yn benodol ar gyfer y cam cychwynnol yn hanes Trafnidiaeth Cymru. Derbynnir bod esblygiad Trafnidiaeth Cymru, ac yn awr y bwriad i'r DPS ymgymryd â swydd Prif Swyddog Gweithredol Trafnidiaeth Cymru, yn golygu bod angen adolygu trefniadau llywodraethu. Mae swyddogion wedi ystyried eisoes pa drefniadau newydd fyddai eu hangen yn ystod y cyfnod trosiannol tan y bydd y DPS yn ymgymryd â'i rôl newydd ac wedi iddo symud i Trafnidiaeth Cymru. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu gan Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Rheoli.

Gall Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth bellach i Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ôl i'r trefniadau newydd gael eu cadarnhau.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd costau'r adnoddau priodol yn cael eu talu o gost rhedeg TC sydd wedi'i chynnwys fel rhan o'i gynllun busnes.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod sail dystiolaeth penderfyniadau yn y dyfodol a blaenoriaethau'r Metro ystyried y cyd-destun gofodol.

Ymateb: Derbyn

Bydd angen tystiolaeth ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol i ddangos sut y mae cynigion yn cyfrannu at ffyniant i bawb. Dylai cynigion ddangos sut maent yn cefnogi datblygiad economaidd y rhanbarth, yn lledaenu swyddi a ffyniant, ac yn sicrhau bod pob datblygiad newydd ac arwyddocaol yn cael ei leoli o fewn cyrraedd hawdd i orsaf.

Goblygiadau Ariannol – Dim – Bydd unrhyw gostau cyfalaf y tu hwnt i gam 2 yn galw am achos busnes, gan gynnwys nodi'r ffynhonnell gyllido, cyn gallu llunio cytundeb i barhau.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gontract 15 mlynedd â chymalau torri. Er nad ydynt yn gynhwysfawr, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y deg blaenoriaeth a nodir yn y bennod hon ac a nodir isod, yn y fanyleb derfynol. Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses o asesu cynigion yn dyrannu pwyntiau yn seiliedig ar y ffordd mae pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r deg blaenoriaeth yn adlewyrchu gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y contract gwasanaeth rheilffyrdd nesaf ac yn cael eu cynnwys yn y fanyleb caffael ac ar draws y meini prawf gwerthuso, er bod cymhlethdod y fanyleb yn golygu eu bod yn cael eu mynegi mewn ffordd wahanol. Mae'r fethodoleg sgorio yn sicrhau bod cynigwyr yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd ar draws yr holl flaenoriaethau.

Goblygiadau Ariannol – Dim – Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y gost o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru geisio eglurhad ar unwaith ynghylch trydaneiddio'r llinell rhwng Abertawe a Chaerdydd. Dylai barhau i lobïo o ran trydaneiddio'r gogledd, ac ailddatblygu gorsaf Caerdydd Canolog, cyn gynted â phosibl. Mae'n hanfodol bod dealltwriaeth glir o

flaenoriaeth y cynlluniau hyn yng Nghymru a bod gan Gymru lais cryf wrth i benderfyniadau gael eu gwneud.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn siomedig bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu i ganslo'r bwriad i drydaneiddio i Abertawe.

Rydym yn parhau i gyflwyno'r ddadl dros drydaneiddio Gogledd Cymru ac ar gyfer buddsoddi yng Ngorsaf Ganolog Caerdydd. Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth at fuddsoddi yn yr ardaloedd hyn yn ei gyhoeddiad ac rydym yn gofyn am fanylion pellach gan Lywodraeth y DU ynghylch ei rôl wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn.

Rydym yn pwysu ar Lywodraeth y DU i ymrwmo i wario cyfran deg o arian ar welliannau i reilffyrdd yng Nghymru, gan ystyried ei ddiffyg buddsoddiad yn y gorffennol, a ddangosir gan y ffaith mai dim ond oddeutu 1.5% o'r g wariant gwella ledled Cymru a Lloegr sydd wedi dod i Gymru ers 2011.

Goblygiadau Ariannol – Dim – Nid yw'r seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli felly mae'r costau hyn yn rhai y mae'n ofynnol i Lywodraeth y DU dalu amdanynt.

Ken Skates AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith